PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 6 TACHWEDD 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Philippa Hill-John, Owen Jones, Lancaster, Jackie Parry, Owen, Wong a/ac Wood |

40 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Derbyshire, Michael a Wild.

41 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

42 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2018 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

43 : CLAMPIO A SYMUD CERBYDAU NIWSANS O'R BRIFFORDD A THIR CYHOEDDUS

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar gyflwyno polisi newydd ar gyfer clampio a symud cerbydau niwsans. Byddai'r polisi yn caniatáu ar gyfer clampio a symud y canlynol:

- Cerbydau sy'n eiddo i droseddwyr parhaus a'r rhai sy'n osgoi tocynnau parcio a thraffig;
- Cerbydau sy'n achosi rhwystr uniongyrchol a/neu wedi'u parcio'n groes i reoliadau parcio;
- Cerbydau heb geidwad cofrestredig ar gofnodion y DVLA;
- Cerbydau nad ydynt wedi'u trethu yn unol â'r Ddeddf Trethu a Chofrestru Cerbydau.

Hysbyswyd yr Aelodau y gall cerbydau sydd wedi'u parcio'n anghyfreithlon achosi rhwystr a chreu perygl i gerddwyr a defnyddwyr eraill y ffordd. Ceir enghreifftiau lle nad yw camau gorfodi'n bosibl neu nad ydynt yn rhwystr digon sylweddol i berchenogion cerbydau. Yn yr un modd, mae'n anodd iawn gorfodi yn erbyn cerbydau nad ydynt wedi'u cofrestru gyda'r DVLA. Er enghraifft, mae'n anodd gorfodi yn erbyn cerbydau tramor gan nad oes unrhyw fanylion wedi'u cadw y gellir rhoi hysbysiad cosb yn eu herbyn. Gall cerbydau o'r fath greu niwsans parcio a'r unig ddewis ymarferol i fynd i'r afael â'r broblem yw eu symud oddi ar y briffordd.

Gwyddys hefyd fod rhai gyrwyr yn torri rheoliadau parcio a thraffig yn rheolaidd ac yn fwriadol ac yn methu â setlo'r dyledion y maent yn mynd i gostau arnynt. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a oedd yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol gymryd y camau gorfodi cryfaf posibl yn erbyn y rhai sy'n osgoi'u cyfrifoldebau'n barhaus. Ar hyn o bryd, mae 9,183 o Hysbysiadau Tâl Cost wedi'u cyhoeddi yn erbyn y rhai sy'n osgoi'n gyson, sy'n cyfateb i £381,397.67.

Mae menter partner y DVLA ar wahân i Orfodi Parcio Sifil.  Bydd mabwysiadu pwerau datganoledig oddi wrth y DVLA yn caniatáu i'r Cyngor gymryd camau yn erbyn cerbydau sydd heb eu trethu, wedi'u gadael neu'n creu niwsans.  Yn 2017, derbyniodd y Cyngor dros 1000 o adroddiadau am gerbydau wedi'u gadael oddi wrth y cyhoedd, yr heddlu ac asiantaethau eraill.  Dim ond 28 o'r cerbydau hynny a gafodd eu symud.  Drwy gael pwerau datganoledig bydd y Cyngor yn gallu symud cerbydau sydd heb eu trethu.  Rhagwelir y bydd cael pwerau o'r fath yn helpu i leihau nifer y cerbydau wedi'u gadael, achosion o droseddu, fandaliaeth a gyrwyr heb yswiriant.

Hysbyswyd yr Aelodau, er mwyn sefydlu maint y broblem o gerbydau heb eu trethu yng Nghaerdydd, bod y Cyngor wedi gweithio gyda'r DVLA i gynnal archwiliad sampl undydd ar draws y ddinas gan ddefnyddio system Adnabod Platiau Rhif Awtomatig. Nododd yr archwiliad sampl gyfanswm o 8,526 o gerbydau oedd heb eu trethu.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Matt Wakelam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol.  Cafodd yr aelodau wahoddiad i roi sylwadau, gofyn am eglurhad pellach neu ofyn cwestiynau.  Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nodwyd y bydd 20 clamp ar gael i ddechrau.  Gofynnodd yr Aelodau a oedd 20 clamp yn ddigon i ddelio â pharcio problemus yn y ddinas, yn enwedig ar ddiwrnodau o ddigwyddiadau mawr.  Amcangyfrifodd swyddogion y byddai 20 clamp yn ddigonol ar ddechrau'r cynllun.  Fodd bynnag, byddai'r nifer hwn yn cael ei adolygu wrth i'r cynllun fynd rhagddo.  Dim ond ar sail cyfyngiadau traffig y mae'n bosib i orfodi. Bydd y rhai sy'n osgoi'n parhaus hefyd yn cael eu clampio.  Bydd ceir sy'n parcio gwrth-gymdeithasol neu sy'n achosi niwsans yn cael eu hatafael a chaiff unrhyw gerbydau heb eu trethu sy'n dod i mewn i'r ddinas eu delio â hwy hefyd.  Os bydd unrhyw faterion diogelwch sylweddol yn ymwneud â cherbyd sydd wedi'i barcio, yna bydd y cerbyd yn cael ei symud a'i hatafael.

- Cadarnhaodd swyddogion y byddai unrhyw arian a godwyd yn cael ei glustnodi a'i reoli mewn ffordd debyg i'r gronfa barcio wrth gefn.  Fodd bynnag, yn wahanol i'r gronfa parcio, ni fyddai unrhyw gyfyngiad o ran rheoli lle y gellir gwario'r arian hwnnw.  Byddai'r maes gwasanaeth yn ceisio sicrhau arbedion drwy gynyddu incwm.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau na ellir delio â charafanau o dan y ddeddfwriaeth hon.  Mae'r gwasanaeth wedi tendro i gontractwr symud carafanau ac mae deddfwriaeth arall yn caniatáu hyn.  Rhaid i'r contractwr allu symud unrhyw gerbyd.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o sut y dosberthir cerbyd sydd wedi'i adael.  Dywedodd swyddogion, os yw cerbyd yn cael ei drethu a bod ganddo MOT, ni ellir ei symud oddi ar y briffordd.

- Cynghorodd swyddogion os caiff cerbyd ei glampio y bydd y perchennog yn cael 24 awr i dalu fel bod y clamp yn cael ei gymryd i ffwrdd, yn unol â chanllawiau'r DVLA.  Ar ôl 24 awr, caiff y cerbyd ei symud o'r briffordd a'i symud i safle diogel yn y ddinas.  Gan fod y gofyniad ar gyfer storio diogel yn ffurfio rhan o'r tendr, caiff y safleoedd posibl eu nodi gan y

cynigwyr. Bydd angen i unrhyw safle arfaethedig fod â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da. Rhagwelir y bydd gan y cerbydau a gaiff eu hatafael werthoedd amrywiol. Bydd y mwyafrif o gerbydau sy’n cael eu hatafael o werth isel. Mae tystiolaeth yn dangos y bydd gan lawer o gerbydau gysylltiadau â throseddolrwydd. Caiff tua 40% o'r cerbydau sy’n cael eu hatafael eu casglu wedi hynny.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai staff ychwanegol yn cael eu cyflogi. Dywedodd swyddogion na fydd staff ychwanegol yn cael eu cyflogi a chaiff staff gorfodi sifil presennol eu gofyn i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Ni chaniateir gweithio ar eich pen eich hun a bydd staff bob amser yn gweithio mewn parau. Caiff timau eu cefnogi gan y cerbydau Adnabod Platiau Rhif Awtomatig. Caiff staff eu darparu â chamerâu'r corff.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd ceisiadau/cwynion a gwybodaeth oddi wrth y DVLA yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu ardaloedd o'r ddinas. Roedd yr awdurdod hefyd yn ymchwilio'r posibilrwydd o weithio mewn partneriaeth ag archfarchnadoedd i orfodi cyfyngiadau parcio mewn mannau anabl.

- O ran dynodi safle addas ar gyfer storio cerbydau'n ddiogel, cadarnhaodd swyddogion y gallai llain o dir sy'n eiddo i'r Cyngor fod ar gael i gynigwyr posibl – nid oedd hyn wedi'i gadarnhau eto.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y pwerau gorfodi newydd wedi'u hanelu at wella gwasanaethau neu a oeddent yn gysylltiedig â chynhyrchu incwm. Dywedodd swyddogion fod y maes gwasanaeth yn cael y dasg o edrych ar gynyddu refeniw er mwyn gosod hynny yn erbyn ar angen i wneud arbedion. Roedd y cyfle i wneud hyn wedi dod i’r amlwg yn dilyn cynnig oddi wrth y DVLA i’r cyngor. Byddai'r pwerau'n cael eu defnyddio i wella ymddygiad a sicrhau nad yw ymddygiad gwael yn cynyddu.

- Gofynnodd yr Aelodau am fanylion y model ariannol a ddefnyddir i gefnogi'r achos busnes. Dywedodd swyddogion fod nifer o fodelau yn cael eu hystyried – roedd y rhain yn cynnwys gosod y gwaith yn allanol yn gyfan gwbl a chadw'r holl wasanaeth yn fewnol. Ar ôl ystyried adnoddau mewnol, penderfynodd yr awdurdod gadw'r gwasanaeth clampio yn fewnol er mwyn cadw'r awenau.

- Gofynnodd yr Aelodau pa mor gyflym y byddai cerbydau yn cael eu clampio ar ôl derbyn cwyn. Nododd Swyddogion fod y swyddogion gorfodi yn anelu at ymateb i gwynion a dderbyniwyd o fewn 24 awr, neu fel arall cyn gynted â phosibl. Mae'n debygol y rhoddir blaenoriaeth i ardaloedd lle mae parcio ar y stryd yn gyfyngedig.

- Gofynnodd Aelodau a oedd yn ddefnydd effeithlon o adnoddau i seilio ymatebion ar gwynion a dderbyniwyd. Dywedodd swyddogion y bydd y timau gorfodi, wrth ymateb i gwynion, yn gallu nodi cerbyd heb ei drethu, y rhai sy’n osgoi’n barhaus neu parcio sy'n achosi niwsans. Mae'r cerbyd Adnabod Platiau Rhif Awtomatig yn gweithio bob amser ac yn casglu gwybodaeth. Bydd swyddogion gorfodaeth yn dychwelyd yn ddiweddarach.

- Cadarnhaodd swyddogion fod yn rhaid i gerbyd fod heb dreth am o leiaf 2 fis i gael eu hystyried fel heb ei drethu.

- Gofynnodd yr Aelodau faint o gerbydau fydd yn cael eu clampio bob dydd. Dywedodd swyddogion fod 20 clamp ar gael. Seiliwyd y model busnes ar amcangyfrif ceidwadol o 20 cerbyd yr wythnos. Ailadroddodd y swyddogion mai'r prif nod oedd gwella ymddygiad.

- Nododd yr Aelodau mai dim ond ar y prif lwybrau yn y ddinas yr oedd ymarfer archwilio'r DVLA wedi canolbwyntio ac eto nodwyd dros 8,000 o gerbydau heb eu trethu. Teimlai'r Aelodau y gallai'r ffigwr gwirioneddol fod yn uwch o lawer. Gofynnwyd i swyddogion a oes gan yr awdurdod y gallu i ddelio â 1000 o gerbydau y flwyddyn. Dywedodd swyddogion y gellir dyrannu mwy o adnoddau os oes angen. Pan fydd gorfodaeth yn dechrau, codir ymwybyddiaeth y cyhoedd a daw aelodau o'r cyhoedd yn ymwybodol ohoni.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

44 : DIWEDDARIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI GWASTRAFF

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau sy'n cael eu gwneud i Strategaeth Rheoli Gwastraff Caerdydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau y gobeithid y byddai'r strategaeth diwygiedig yn adeiladu ar y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 2015-18 ac yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig i ddatblygu cam nesaf gwaith ailgylchu'r Cyngor a bodloni ymrwymiadau statudol y Cyngor.

Bydd yr ymrwymiadau yn nogfen Uchelgais Prifddinas y Cyngor yn allweddol bwysig yn y strategaeth diwygiedig, a fyddai'n rhoi gwerth mawr ar ailgylchu ac addysg, strydoedd glanach a phartneriaethau cymunedol i ysgogi agweddau ac ymddygiad cynaliadwy. Manylwyd ar y sbardunau deddfwriaethol craidd ar gyfer y ddogfen yn yr adroddiad.

Croesawodd y Cadeirydd Matt Wakelam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol a Jane Cherrington, Rheolwr Gweithredol - Strategaeth a Gorfodaeth mewn Cynllunio, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd, Strydlun. Gwahoddwyd y swyddogion i wneud cyflwyniad. Cafodd yr aelodau wahoddiad i roi sylwadau, gofyn am eglurhad pellach neu ofyn cwestiynau. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd un aelod a oedd modd ailgylchu bylbiau golau. Dywedodd swyddogion fod modd ailgylchu bylbiau golau a gall eu cymryd i CAGCau. Fodd bynnag, argymhellir bod aelodau o'r cyhoedd yn prynu bylbiau golau arbed ynni oes hir yn lle hynny.

- Gofynnodd Aelodau pa fath o wastraff a gyflwynwyd sy’n achosi’r rhan fwyaf o broblemau o ran ailgylchu. Dywedodd swyddogion fod papur wedi'i lamineiddio neu eitemau sy'n cynnwys nifer o ddeunyddiau yn anodd eu prosesu. Mae bylbiau golau yn enghraifft da. Mae gan bolystyren werth uchel fesul tunnell fetrig, ond mae tunnell fetrig o

bolystyren yn swm mawr. Mae ffilm blastig yr un ffordd. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi pwysau ar gynhyrchwyr er mwyn sicrhau y gellir gwahanu cydrannau yn eu deunydd pacio. Gofynnodd yr Aelodau pwy sy'n gyfrifol am wahanu gwastraff. Dywedodd swyddogion fod y cyfrifoldeb ar yr awdurdod a'r cyhoedd. Po fwyaf y gellir annog aelodau'r cyhoedd i wahanu eu hailgylchu, y gorau ydyw i'r awdurdod. Dywedodd swyddogion fod 'pŵer y dinesydd' yn ddiweddar yn arwain at newid mewn ymddygiad. Er enghraifft, bu ymgyrch yn ddiweddar yn annog cwsmeriaid i bostio pacedi creision na ellir eu hailgylchu yn ôl i'w gweithgynhyrchwyr. Hefyd, bu symudiad tuag at wellt yfed a chwpanau papur ac osgoi eitemau plastig untro. Erbyn hyn, mae gan ddinasyddion fwy o ddewis ac mae swyddogion yn rhagweld y bydd ailgylchu'n gwella o ganlyniad.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw'r maes gwasanaeth wedi ystyried yr arferion gorau mewn gwledydd eraill o ran modelau ailgylchu. Dywedodd swyddogion fod astudiaethau Llywodraeth Cymru wedi dangos bod dinasyddion mewn gwledydd eraill yn ymddwyn yn wahanol ac yn cwestiynu a fyddai cynlluniau ailgylchu cyfandirol mor effeithiol â'r cynllun presennol. Roedd swyddogion o'r farn y byddai cynlluniau fel y cynllun dychwelyd â blaendal yn gam yn ôl. Mae gan Gymru y 3ydd gyfradd ailgylchu uchaf yn y byd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n ofyniad cyfreithiol i weithredwyr masnachol wahanu eu gwastraff. Nid yw gwastraff yn flaenoriaeth i fusnesau ychwaith o'i gymharu â ffactorau eraill, megis ardrethi busnes.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw swyddogion wedi ystyried yr effaith y byddai'r gwasanaeth yn ei chael ar staff o ran symud i wasanaeth 6 neu 7 diwrnod yr wythnos. Dywedodd swyddogion fod y gwasanaeth yn gweithredu patrwm sifft traddodiadol 5 diwrnod yr wythnos a bod nifer o opsiynau gwahanol yn cael eu hystyried. Bydd unrhyw symud i ffwrdd o'r model presennol yn ystyried yr effaith ar staff a bydd yn destun ymgynghoriad llawn a modelu ariannol.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y gwasanaeth yn barod ar gyfer cynnydd posibl yn nifer y casgliadau gwydr dros gyfnod y Nadolig. Dywedodd swyddogion y gall preswylwyr sy'n cymryd rhan yn y treial gwahanu gwydr ofyn am gadis ychwanegol. Darperir gwybodaeth arlein a thrwy C2C.

- Dywedodd swyddogion fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi newid y diffiniad ar gyfer categoreiddio pren wedi'i ailgylchu fel na ellir mwyach nodi MDF na sglodfwrdd fel ailgylchu.

- Nododd yr Aelodau fod y Cyngor yn cael £25 y dunnell fetrig ar gyfer ailwerthu gwydr wedi'i ailgylchu. Gofynnodd yr Aelodau a fydd y ffigwr hwn yn talu am gost cerbydau newydd. Dywedodd swyddogion fod yr achos busnes yn seiliedig ar dderbyn £15 y dunnell fetrig. Y ffigwr mantoli yw rhwng £10 a £15 y dunnell fetrig.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y broses o ehangu'r cynllun bin olwynion ar gyfnod cynnar ond mae'r gwaith yn mynd rhagddo.

Darparwyd rhai cannoedd o finiau i'r trigolion. Bydd preswylwyr yn ardal gadwraeth Pontcanna yn derbyn eu biniau ym mis Mawrth 2019.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

45 : BRIFFIO AELODAU: POLISI ENWI FFYRDD

Cafodd yr Aelodau nodyn briffio ar Bolisi Enwi Strydoedd y Cyngor. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r cynnwys.

PENDERFYNWYD – Bod cynnwys y nodyn briffio’n cael ei nodi.

46 : GOHEBIAETH – DIWEDDARIAD AR LAFAR

Rhoddodd y Prif Swyddog Craffu ddiweddariad i'r Aelodau ar ohebiaeth ddiweddar. Anfonwyd tri llythyr at Aelodau'r Cabinet ar ôl 4 Medi 2018. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion.

47 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

48 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu’r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 4 Rhagfyr 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.40 pm